# Y CABINET DYDD MAWRTH, 14 MAI 2024

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig Siencyn, Beca Brown, Berwyn Parry Jones, Craig ab Iago, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Elin Walker Jones, Menna Trenholme a Paul Rowlinson.

**Hefyd yn bresennol-**
Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Huw Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dewi Aeron Morgan (Pennaeth Cyllid) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

| | |
|---|---|
| Eitem 6: | Ian Jones (Pennaeth Adran Gwasanaethau Corfforaethol) a Meinir Griffiths (Swyddog Gwella Gwasanaeth, Adran Gwasanaethau Corfforaethol) |
| Eitemau 7,8 a 9: | Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol) |
| Eitem 10: | Aled Gibbard (Pennaeth Cynorthwyol, Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd) |
| Eitem 11: | Carys Fôn Williams (Pennaeth Adran Tai ac Eiddo) |
| Eitem 14: | Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu) ac Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith) |

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd yr Aelodau Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

Diolchwyd i'r Cyng. Ioan Thomas am ei waith fel y Cyn-aelod Cabinet Cyllid a chroesawyd y Cyng. Paul Rowlinson i'w gyfarfod cyntaf fel yr Aelod Cabinet Cyllid newydd.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cyng. Nia Jeffreys ac Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw fater brys.

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2024 fel rhai cywir.

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL CWYNION A GWELLA GWASANAETH 2023/24

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Menna Trenholme

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd yr adroddiad a chynnigwyd sylwadau ac awgrymiadau perthnasol am berfformiad y Cyngor o ran ymdrin â chwynion yn briodol ac yn amserol.

**TRAFODAETH**

Atgoffwyd yr Aelodau o drefn adrodd ar ystadegau cwynion i'r Cabinet ddwywaith y flwyddyn yn unol â Pholisi Pryderon a Chwynion. Cadarnhawyd bod trefn statudol ar wahân i ddefnyddwyr gwasanaethau cymdeithasol ac ysgolion. Manylwyd bod ystadegau byw o'r cwynion a dderbynnir ar gael ar ofyn i'r Cabinet a phenaethiaid adran.

Pwysleisiwyd bod adrannau yn annog defnyddwyr gwasanaeth i gwyno pan mae problemau yn codi er mwyn lleddfu rhwystredigaethau a sicrhau gwell ansawdd gwasanaethau i'r dyfodol. Cadarnhawyd bod y Swyddog Gwella Gwasanaeth yn ail-ymweld â chwynion yn fisol, gan bwysleisio mai dim ond 3 cwyn byw sydd wedi cyrraedd ble nad oes datrysiad wedi ei ganfod hyd yma. Manylwyd bod y cwynion hyn wedi cyrraedd ers 20 diwrnod a'r targed cyffredinol i ddatrys cwynion yw 7 diwrnod. Ymfalchïwyd bod lefelau cwynion ar gyfer y gwasanaeth gwastraff wedi gostwng cryn dipyn dros y cyfnod 2023-24.

Cydnabuwyd bod yna le i wella gweithdrefnau gan bwysleisio bod Siarter Gofal Cwsmer yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd er mwyn amlygu'r gofal cwsmer priodol i'n defnyddwyr ac ymateb i bryderon trigolion.

Adroddwyd bod trefniadau mewn lle os oes tueddiadau o gwynion yn codi mewn gwasanaethau. Cadarnhawyd bod gan y Swyddog Gwella Gwasanaeth berthynas da gyda swyddogion ac yn tynnu eu sylw pan mae nifer o gwynion yn codi am yr un rheswm o fewn yr un gwasanaeth. Nodwyd bydd y gwasanaeth yn cael ei annog i ail-ystyried eu trefniadau gan nodi bod materion hanesyddol sydd heb gael eu datrys yn cael eu hamlygu i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Prif Weithredwr pan yn briodol. Sicrhawyd nad oes cwynion yn cael eu cau oni bai bod datrysiad neu eglurhad clir wedi cael ei ddarparu i'r defnyddiwr.

## 7. CYFRIFON TERFYNOL 2023/24 – ALLDRO REFENIW

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Paul Rowlinson

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd yr adroddiad ac ystyriwyd y sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2023/24:

| | Colofn A | Colofn B | Colofn C | Colofn Ch |
|---|---|---|---|---|
| | Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24 | Addasiadau a Argymhellir | | Gor/ (Tan) Wariant Addasedig 2023/24 |
| | £ '000 | £'000 | £'000 | £ '000 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 3,906 | (3,806) | 0 | 100 |
| Plant a Theuluoedd | 2,611 | (2,511) | 0 | 100 |
| Addysg | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Economi a Chymuned | 308 | 0 | (308) | 0 |
| Priffyrdd, Peirianneg ac YGC | 687 | (587) | 0 | 100 |
| Amgylchedd | 1,237 | (1,137) | 0 | 100 |
| Tai ac Eiddo | 255 | (155) | 0 | 100 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | (11) | 0 | 0 | (11) |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | (10) | 0 | 0 | (10) |
| Cyllid | (7) | 0 | 0 | (7) |

Nodwyd bod gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Plant a Theuluoedd, Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC, Adran Amgylchedd a'r Adran Tai ac Eiddo eleni (Gweler colofn A yn y tabl uchod). Cymeradwyo'r trosglwyddiadau ariannol canlynol (sydd wedi'u hegluro yn Atodiad 2):

Yr adrannau sydd yn gorwario i dderbyn cymorth ariannol un tro gan gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k (Gweler colofn B yn y tabl uchod).

Cadarnhawyd darparu cymorth ariannol o £308k uwchlaw'r taliad cytundebol i Gwmni Byw'n Iach (Gweler colofn C yn y tabl uchod).

Ar gyllidebau Corfforaethol:

- Defnyddio'r balans o £4,402k sydd ar ôl yn y Gronfa Covid i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2023/24.
- Defnyddio (£2,091k) o'r tanwariant ar gyllidebau Corfforaethol i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2023/24.
- Gweddill y tanwariant (£495k) ar gyllidebau Corfforaethol i'w drosglwyddo i'r Gronfa Cynorthwyo'r Strategaeth Ariannol.

Cymeradwywyd symiau i'w cario ymlaen (y golofn 'Gor/(Tan) Wariant Addasedig' yn colofn CH uchod ac yn Atodiad 1.

Cymeradwywyd trosglwyddiadau ariannol o gronfeydd penodol fel yr amlinellir yn Atodiad 3 yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd:

– Cynaeafu (£1,703k) o gronfeydd a'i ddefnyddio yn ei gyfanrwydd i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2023/24.
– Defnyddio £2,975k i gyllido bidiau un tro 2024/25 yn dilyn dad ymrwymo £1,113k o'r Gronfa Trawsffurfio a throsglwyddo £1,862k o'r Gronfa Cynorthwyo'r Strategaeth Ariannol.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi bod gorwariant o oddeutu £9 miliwn ymhlith adrannau'r Cyngor o fewn y flwyddyn ariannol 2023-24. Darparwyd diweddariad ar sefyllfa'r holl adrannau'n unigol gan dynnu sylw at y prif faterion a meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol megis:

- **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** - Nodwyd bod rhagolygon mis Tachwedd 2023 yn amcangyfrif gorwariant o £5.4 miliwn o fewn yr Adran. Cadarnhawyd mai gwir orwariant yr Adran ar ddiwedd y flwyddyn ariannol oedd £3.9 miliwn yn dilyn derbyn grantiau ac incwm ychwanegol. Ymhelaethwyd bod £1.8 miliwn o'r gorwariant oherwydd y pwysau cynyddol a chostus llety cefnogol yn y Gwasanaeth Anabledd Dysgu ond pwysleisiwyd bod bid ariannol o £1.6 miliwn wedi cael ei gyflwyno gan yr Adran ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25 i ymdrechu i gyfarch yr her hon. Cyfeiriwyd hefyd at heriau lefelau salwch, cyfraddau oriau gwaith digyswllt a chostau staffio sy'n arwain at orwariant yn y maes Gofal Cartref ond pwysleisiwyd bod gwaith yn mynd rhagddo i ddatrys yr heriau hyn.
- **Adran Plant a Theuluoedd** – Cydnabuwyd bod gorwariant yr Adran wedi cynyddu i £2.6 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol o'i gymharu â'r rhagdybiaeth o £1.3 miliwn yn adolygiad mis Tachwedd 2023. Pwysleisiwyd bod y gorwariant hwn yn deillio o'r cynnydd yng nghostau lleoliadau all-sirol o ganlyniad i gymhlethdodau pecynnau a defnydd cynyddol diweddar o leoliadau heb eu cofrestru. Nodwyd y gobeithir mewnoli'r gwasanaethau hyn yn y dyfodol. Cyfeiriwyd hefyd bod pwysau i'w weld ar gyllideb Gwasanaeth Derwen.
- **Adran Addysg** – Pwysleisiwyd bod y tueddiad o bwysau cynyddol ar y gyllideb cludiant tacsis a bysus ysgolion yn parhau, gyda gorwariant o £1.5 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Nodwyd bod swyddog wedi ei benodi i gyflawni adolygiad a'r sefyllfa. Eglurwyd bod trosiant staff, derbyniad incwm a grantiau a llai o bwysau ar gyllidebau eraill yr Adran yn lleihau'r gorwariant i £95k. Adroddwyd bod yr Adran yn defnyddio £95k o'u cronfa tanwariant adrannol i ddiddymu'r gorwariant yn llwyr.
- **Byw'n Iach** – Atgoffwyd bod y Cyngor wedi rhoi £550k i'r cwmni yn y flwyddyn ariannol 2022/23 fel cefnogaeth ariannol uwchlaw'r taliad cytundebol o fewn y contract ddarparu, i helpu'r cwmni yn sgil y Pandemig. Cadarnhawyd bod y gefnogaeth ariannol yn parhau eleni gyda'r swm gofynnol wedi lleihau i £308k. Pwysleisiwyd y rhagwelir na fydd y cwmni angen cefnogaeth ariannol erbyn terfyn y flwyddyn ariannol gyfredol.
- **Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC** – Nodwyd bod gorwariant o £687k yn sgil pwysau ar y gyllideb cynnal ffyrdd a goleuo yn ogystal â lleihad yn y gwaith sydd yn cael ei gomisiynu gan asiantaethau allanol. Ymfalchïwyd bod YGC wedi gwneud elw o £100k sy'n rhagori ar y rhagdybiaeth elw o £39k a ddisgwyliwyd ar gyfer 2023-24.

- **Adran Amgylchedd** – Eglurwyd bod y tueddiad o orwariant yn y maes casglu gwastraff ac ailgylchu yn parhau ac wedi cynyddu i £1.2 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn. Nodwyd bod yr Adran yn gweithredu argymhellion WRAP Cymru i fynd i'r afael a'r tuedd hwn. Cydnabuwyd bod diffyg incwm meysydd parcio o £601k wedi cyfrannu at orwariant o fewn yr Adran.
- **Adran Tai ac Eiddo** – Esboniwyd bod pwysau sylweddol llety dros dro digartrefedd yn parhau i ddwysau gan achosi gorwariant o £2 miliwn o fewn yr Adran. Pwysleisiwyd bod y sefyllfa hon yn her fawr gan ei fod yn gorwario er bod cyllideb ychwanegol i £3 miliwn o bremiwm treth Cyngor a grant o £597k gan y Llywodraeth wedi ei ddyrannu i'r maes. Pwysleisiwyd bod ddyraniad un tro o £1.4 miliwn o ddarpariaeth Covid corfforaethol yn ogystal â £701k o gronfa tanwariant adrannol wedi lleihau'r gorwariant eleni i £255k.
- **Ysgolion** – Diweddarwyd bod balansau'r ysgolion wedi gweld gostyngiad o £3.4 miliwn, gan leihau o £11.9 miliwn yn 2022/23 i £8.5 miliwn yn 2023/24. Nodwyd bo cynnydd sylweddol i falansau'r ysgolion yn y blynyddoedd diwethaf yn dilyn derbyn grantiau sylweddol, ond rhagwelwyd y byddent yn ôl i lefelau arferol erbyn diwedd 2024/25.

Diolchwyd i'r adran Gyllid am ddarparu crynodeb glir o sefyllfa'r adrannau a'r her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor i'r dyfodol. Ymfalchïwyd bod yr adrannau'n ystyried yr heriau ariannol presennol gyda chyfrifoldeb gan roi ystyriaeth barhaus iddo wrth ymdrechu i barhau cynnal gwasanaethau.

## 8. RHAGLEN GYFALAF 2023/24 – ADOLYGIAD DIWEDD BLWYDDYN (SEFYLLFA 31 MAWRTH 2024

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Paul Rowlinson

### PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr adroddiad ar adolygiad diwedd y flwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2024) o'r rhaglen gyfalaf.

Cymeradwywyd ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 3.2.3 o'r adroddiad, sef:

- Cynnydd o £2,189,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- Cynnydd o £132,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
- Cynnydd o £645,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- Cynnydd o £87,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill

### TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan gyfeirio at Raglen Gyfalaf 2023/24 i 2025/26 gwerth £189 miliwn yn ogystal â dadansoddiad fesul Adran. Cadarnhawyd bod cynnydd o £3,053k yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf hon ers adolygiad Tachwedd 2023.

Eglurwyd bod y Cyngor wedi llwyddo i wario £57 miliwn ar gynlluniau cyfalaf yn ystod y flwyddyn 2023/24. Ymhelaethwyd bod 58% o'r gwariant hwn wedi ei ariannu drwy grantiau penodol. Er hyn, cydnabuwyd y gellir gweld effaith heriau ariannol diweddar ar y rhaglen gyfalaf.

Adroddwyd bod £34 miliwn ychwanegol o wariant arfaethedig wedi ei ail-broffilio o 2023/24 i flynyddoedd 2024/25 a 2025/26. Esboniwyd bod y newid hwn wedi cael ei gynllunio wrth i rai o brif gynlluniau'r Cyngor lithro ers y gyllideb wreiddiol, megis:

- £16 miliwn – Cynlluniau Strategaeth Tai
- £14.6 miliwn – Cynlluniau Ysgolion (Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ac eraill)
- £6.4 miliwn – Cynlluniau Cronfa Ffyniant Gyffredin
- £5.7 miliwn – Adnewyddu Cerbydau ac offer
- £4.1 miliwn - Cynlluniau Rheoli Carbon a Phaneli Solar
- £3.8 miliwn – Cynlluniau Cronfa Ffyniant Bro

Ymfalchïwyd bod y Cyngor wedi llwyddo i ddenu nifer o grantiau ychwanegol ers yr adolygiad diweddaraf ym mis Tachwedd 2023. Cyfeiriwyd at y grantiau isod fel y rhai mwyaf a gyflwynwyd i'r Cyngor ers yr adolygiad:

- £1,755k – Grant tuag at y cynllun i ddatgarboneiddio gwres o fewn y Cyngor.
- £1,100k – Grant cyfalaf Dechrau'n Deg a Gofal Plant gan Lywodraeth Cymru.
- £659k – Grant Llywodraeth Cymru tuag at bryniant eiddo i gwrdd â gofynion yn y maes Digartrefedd.
- £392k – Grant Isadeiledd Sbwriel gan Lywodraeth Cymru.
- £358k – Grant Cynnal a Chadw Ysgolion 2023/24 gan Lywodraeth Cymru.

Eglurwyd ei bod bellach yn ofynnol i'r Cyngor rannu gwybodaeth am Ddangosyddion Darbodus clyfar o 2023/24 ymlaen a thynnwyd sylw at y wybodaeth honno o fewn yr adroddiad.

Tynnwyd sylw bod lefelau cyfalaf ar ei lawr ers nifer o flynyddoedd gan nad yw'n tyfu gyda chwyddiant. Nodwyd y gall hyn ymddangos fel her i'r dyfodol.

Diolchwyd i'r Adran Gyllid am yr adroddiad a'u gwaith o gynllunio a gwarchod buddiannau'r Cyngor.

## 9. CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Paul Rowlinson.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2025-26 – 2027/28.

Comisiynu'r Prif Weithredwr i sefydlu ac arwain ar ystod o fesurau a phecynnau gwaith, fel amlinellir yn rhan 4.6 o'r adroddiad, i ragbaratoi ar gyfer cyfarch y bwlch sylweddol yn ein cyllideb dros y tair mlynedd nesaf.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Cabinet yn sgil yr heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor, i rhagweithio er mwyn cynllunio i ddelio â'r wasgfa ariannol.

Eglurwyd nad yw canfod toriadau ar gyllideb a gwasanaethau'r Cyngor yn broses newydd gan fod toriadau wedi cael ei gyflwyno yn flynyddol ers 18 mlynedd. Ymfalchïwyd bod y Cyngor wedi llwyddo i gynnal gwasanaethau er lleihad yng nghyllidebau adrannau ond cydnabuwyd yr angen i ddod a rhai gwasanaethau i ben yn y dyfodol.

Cadarnhawyd bod y gyllideb ar gyfer eleni wedi ei gosod a rhagwelir diffyg sylweddol yn incwm y Cyngor erbyn 2027/28 ac felly mae gwaith yn mynd rhagddo i ymdrechu i lenwi'r bwlch drwy gynllun ffeithiol. Pwysleisiwyd bod y rhagdybiaethau yn seiliedig ar sail gwybodaeth y blynyddoedd diwethaf ac ei fod yn gynllun cychwynnol i fynd i'r afael â chyllideb y tymor canolig.

Cyfeiriwyd ar grynodeb o'r cynllun gan nodi ei fod yn manylu ar ffactorau hysbys sy'n effeithio ar sefyllfa ariannol y Cyngor yn ystod y tymor canolig (rhwng 2025/26 hyd at ddiwedd 2027/28). Manylwyd y rhagwelir chwyddiant ar gyflogau staff y Cyngor yn ogystal â phrisiau nwyddau, yn ogystal â chynnydd ardollau yn cael effaith ar gyllideb y Cyngor o fewn y cyfnod hwn. Er hyn, pwysleisiwyd nad oes cytundeb i gynyddu cyflogau gyda'r undebau ar hyn o bryd. Pwysleisiwyd hefyd nad oes ystyriaeth fanwl wedi ei roi i addasu lefelau treth Cyngor, a byddai unrhyw addasiad angen cymeradwyaeth y Cyngor Llawn. Nodwyd bod swyddogion wedi rhagweld cynnydd o 5% o fewn y cynllun er mwyn cyfarch y risg hwn i'r gyllideb er y tybir bydd y cynnydd i gyflogau yn is na'r gyfradd hynny.

Esboniwyd fod y gyfradd chwyddiant a ddefnyddir yn y Cynllun yn seiliedig ar ragolwg Banc Lloegr a chyngor gan gwmni Arlingclose, sef ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor. Nodwyd bod swyddogion wedi selio cyfradd chwyddiant rhagdybiaethol i 2% ar gyfer nifer o flynyddoedd y tymor canol er mwyn cynllunio i gyfarch y bwlch hwnnw. Cydnabuwyd bod galw blynyddol am gyllideb ychwanegol uwchlaw chwyddiant mewn rhai meysydd a rhagwelir bydd angen £3 miliwn y flwyddyn er mwyn ymdrin â'r galw hwn. Pwysleisiwyd mai darpariaeth darbodus yw hyn, nid targed gwariant a bydd unrhyw fid ariannol yn derbyn ystyriaeth ofalus.

Adroddwyd bod y Cynllun yn amcangyfrif bwlch ariannol o £36,200k (cyn ystyried unrhyw gynnydd Treth Cyngor ac arbedion sydd eisoes wedi eu hadnabod) yn ystod y tymor canol yn seiliedig ar ragdybiaethau ac amcanion. Cadarnhawyd y gobeithir cyflwyno amrywiol opsiynau ar gamau nesaf i'r dyfodol a nodwyd yr angen i ganfod cydbwysedd rhwng cynnal gwasanaethau ac addasu lefelau treth Cyngor. Gofynnwyd am ganiatâd y Cabinet i ymchwilio i wasanaethau'r holl adrannau er mwyn llunio opsiynau a gofynnwyd i'r Aelodau rhoi ystyriaeth fanwl i wasanaethau eu hadrannau mewn ymgynghoriad â'r swyddogion perthnasol.

Pwysleisiwyd bod angen bod yn ystyrlon i lesiant staff y Cyngor wrth symud ymlaen i'r dyfodol, yn enwedig y staff hynny sydd yn cyflawni gwasanaethau statudol ar ran y Cyngor, gan sicrhau bod cyfathrebu clir yn parhau gyda'r holl staff. Amlinellwyd ar y drefn 3 cam a gyflwynwyd er mwyn ymgeisio gwarchod gwasanaethau statudol:

1. Cael trefn ar wariant, gan rewi gwariant mewn rhai meysydd a derbyn rhybuddion cynnar os bydd rhai gwasanaethau yn gorwario yn fuan yn y flwyddyn.
2. Bwriedir i pob Adran ddod gerbron panel o aelodau a swyddogion i fynd drwy gweithgaredd pobl tîm eu hadran, eu cost, effaith ac effaith dod a'r

gwasanaethau hynny i ben. Nodwyd bydd canlyniadau'r cyfarfodydd hynny yn cael ei rannu gyda'r Cabinet. Cadarnhawyd bydd pob ymdrech i flaenoriaethu ar sail risg ac angen trigolion.

3. Sicrhau ystyriaeth ym mhob agwedd a chyfystyr er mwyn sicrhau bod pob carreg wedi'i droi.

Mynegwyd rhwystredigaeth nad yw'r Llywodraeth yn debygol o gynyddu cyfanswm setliad grant oherwydd byddai hynny yn gymorth mawr i lenwi bwlch yng nghyllideb y Cyngor.

Diolchwyd i'r Adran Gyllid am eu gwaith trylwyr wrth baratoi'r adroddiad.

## 10. TROSGLWYDDIAD ARIANNOL AR GYFER CYNLLUN CARTREFI GRŴP BYCHAN

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Elin Walker Jones

**PENDERFYNIAD**

Awdurdodwyd trosglwyddiad ariannol parhaol o £454,580 o gyllideb lleoliadau preswyl all-sirol ar gyfer cyllido darpariaeth mewnol fel rhan o ddatblygu cynllun Cartrefi Grŵp Bychain.

**TRAFODAETH**

Adroddwyd ei fod yn ddyletswydd ar y Cyngor i ddarparu lleoliadau preswyl digonol i blant mewn gofal. Esboniwyd bod gweithdrefnau ariannol y Cyngor yn caniatáu trosglwyddo arian rhwng penawdau yng nghyllideb adran. Er hyn, pwysleisiwyd bod angen caniatâd y Cabinet ar gyfer trosglwyddo swm uwch na £200,000. Manylwyd bod angen hysbysu swyddi parhaol ar gyfer llwyddo i dderbyn cofrestriad y cartrefi gyda CIW (Care Inspectorate Wales). Nodwyd bod angen cyllid parhaol er mwyn llwyddo i wneud hyn.

Adroddwyd bod datblygu darpariaeth preswyl drwy Gynllun Cartrefi Grŵp Bychain yn flaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor 2023-28. Nodwyd hefyd bod Strategaeth Lleoli ar gyfer Plant Mewn Gofal yn cyfarch yr ystod o ddarpariaeth lleoliadau sydd ei angen i gyflawni dyletswyddau statudol gan fanylu bod 80% o leoliadau maethu Gwynedd yn cael eu darparu drwy ddarpariaeth fewnol.

Cydnabuwyd nad oes darpariaeth breswyl ar gyfer plant mewn gofal ym meddiant Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd a bod yr holl leoliadau a ddefnyddir gan y Cyngor yn dod gan ddarparwyr allanol, gyda 92% ohonynt yn ddarparwyr preifat. Manylwyd bod 76% o leoliadau preswyl cyfredol tu allan i Wynedd, gyda 46% o'r rheini yng Ngogledd Cymru a 30% y tu allan i Gymru. Eglurwyd bod y galw am leoliadau preswyl yn genedlaethol yn uchel ac nid yw'r cyflenwad presennol yn cyfarch y galw.

Esboniwyd bod gwariant y Cyngor ar leoliadau preswyl all-sirol yn £6 miliwn o fewn y flwyddyn ariannol 2023-24. Cydnabuwyd bod hyn yn sylweddol uwch na'r gyllideb o £5.53 miliwn. Nodwyd bod y dasg o gyllido lleoliadau preswyl all-sirol yn gallu bod yn anrhagweladwy oherwydd bod y gost yn amrywio rhwng lleoliadau. Pwysleisiwyd bod

cyllideb lleoliadau preswyl all-sirol yn cynrychioli 50% o'r holl gyllideb ar gyfer lleoliadau plant mewn gofal.

Cadarnhawyd byddai datblygu'r cynllun a gyflwynwyd o fewn yr adroddiad yn gyfle i arbed costau, tra'n sicrhau bod plant mewn lleoliadau preswyl yn cael aros yn lleol, bod yn rhan o'r gymuned a derbyn addysg o fewn y Sir. Manylwyd mai cost gyfartalog blynyddol lleoliad preswyl yw £330k. Nodwyd wrth osod cyllideb o £454,580 mae arbediad blynyddol posibl o tua £215k fesul Cartref Grŵp Bychan gyda 2 blentyn mewn lleoliad. Cadarnhawyd na fydd gwariant llawn o'r gyllideb eleni gan fod arian grant o £255k wedi ei sicrhau drwy'r Gronfa Integredig Rhanbarthol.

## 11. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS TAI AC EIDDO

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Craig ab Iago.

**PENDERFYNIAD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan dynnu sylw at brosiectau sydd yn rhan o Gynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028.

Adroddwyd bod 885 o gyflwyniadau digartref wedi cyrraedd yr Adran rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024, gan ymhelaethu bod nifer yr unigolion a theuluoedd mewn llety argyfwng hefyd yn parhau i fod yn uchel. Nodwyd bod bron i 250 o aelwydydd wedi eu lleoli mewn lletyau dros dro ar draws y Sir. Pwysleisiwyd bod yr Adran yn parhau i weithio'n ddiflino i gynnig datrysiadau i'r sefyllfa hon drwy nifer o brosiectau a ffrydiau gwaith.

Cadarnhawyd bod yr Adran yn anelu i godi o leiaf 83 o unedau llety â chefnogaeth i unigolion mewn lleoliadau ar draws y Sir, yn unol â'r Cynllun Gweithredu Tai. Tynnwyd sylw at ddatblygiad Dôl Sadler yn Nolgellau sydd wedi derbyn adborth cadarnhaol yn ddiweddar. Manylwyd bod cynlluniau unedau llety presennol yn cynnwys lleoliadau ym Mangor, Pwllheli a Chaernarfon.

Tynnwyd sylw at gynllun yr Adran i annog landlordiaid preifat i lesu ei heiddo i'r Cyngor am gyfnod o 5-25 mlynedd tra'n gwarantu rhent iddynt am y cyfnod. Nodwyd bod yr adran wedi llwyddo i ddenu grant o dros £2.7 miliwn i ddatblygu'r pecynnau hyn, ac yn anelu i ddod â 100 o dai ar y Cynllun yn y deng mlynedd nesaf. Cadarnhawyd bod 14 eiddo bellach ar y cynllun sydd wedi galluogi'r Adran i helpu 22 o bobl i rentu tŷ. Ymhelaethwyd bod 11 eiddo arall yn cael eu hasesu ar hyn o bryd a bod yr Adran yn parhau i ymateb i fynegiannau o ddiddordeb.

Ymfalchïwyd bod yr Adran wedi penodi dau swyddog ar gyfer cynorthwyo gyda chefnogaeth i unigolion gyda phroblemau iechyd meddwl er mwyn osgoi sefyllfaoedd ble mae unigolion bregus yn colli eu tenantiaeth. Manylwyd bod y swyddogion wedi llwyddo i helpu dros 100 o bobl dros y flwyddyn a hanner diwethaf ac yn cefnogi 40 o bobl ychwanegol ar hyn o bryd.

Cydnabuwyd bod argyfwng tai yng Ngwynedd ar hyn o bryd a phwysleisiwyd bod cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Manylwyd bod 278 o dai cymdeithasol gan gadarnhau bod 260 o unedau ychwanegol ar y gweill ar hyn o bryd. Tynnwyd sylw at gynllun Tŷ Gwynedd sef datblygiad o 33 o dai canolraddol a fydd ar gael i'w prynu neu rentu.

Adroddwyd bod yr Adran ar drac i gyflawni'r nifer o bryniannau a osodwyd fel uchelgais cynllun Prynu i Osod ar gyfer 2023-24, gan fod 21 o dai wedi eu prynu gyda 5 ychwanegol yn agos i'w cwblhau.

Diweddarwyd bod yr Adran bellach wedi dosbarthu 4102 o dalebau ynni er mwyn darparu cymorth i bobl gyda costau ynni cynyddol a thlodi tanwydd. Manylwyd bod cyfanswm cost y talebau hyn yn £167,820 ac wedi mynd yn uniongyrchol i helpu pobl Gwynedd.

Nodwyd bod yr Adran yn wyneb her pan yn ceisio cysylltu gyda chwmnïau cyfleustodau yn enwedig mewn cysylltiad gyda chwmnïau atgyweirio ac adeiladu. Manylwyd bod asiantaethau megis Dŵr Cymru ac eraill yn gallu bod yn achosi oedi ar ddatblygiadau gan eu bod yn cymryd peth amser i gysylltu cyflenwadau angenrheidiol i safleoedd. Cadarnhawyd bod yr Adran wedi codi'r pryderon a rhwystrau hyn gyda'r Llywodraeth.

Diolchwyd i'r Adran am eu gwaith drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf.

## 12. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dyfrig Siencyn

**PENDERFYNIAD**

Mabwysiadwyd Blaenraglen waith y Cabinet ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir rhwng 14 Mai 2024 a 5 Tachwedd 2024.

**TRAFODAETH**

Ystyriwyd yr eitemau a nodwyd ar gyfer cyfarfodydd y Cabinet rhwng 14 Mai 2024 a 5 Tachwedd 2024.

## 13. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar gweddill Eitem 7 ac Eitem 9 gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 - Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).**

**Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir, fodd bynnag, fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus, fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei chyhoeddi. Mae'r**

**adroddiadau yn benodol ynglŷn â materion ariannol a busnes ynghyd â thrafodaethau cysylltiedig. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r Cynghorau ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud â'r Cytundeb Twf i rannu gwybodaeth sensitif ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau'r allbwn cyfansawdd gorau.**

## 14. HUNANIAITH: MENTER IAITH GWYNEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Menna Trenholme

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd bod Menter Iaith Gwynedd Cyf yn cyflwyno cais grant Hybu a Hyrwyddo'r Gymraeg ar gyfer 2025/26, yn hytrach na Chyngor Gwynedd a throsglwyddo staff presennol i weithio i Fenter Iaith Gwynedd ar 1 Ebrill 2025.

Dirprwywyd yr hawl i'r Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Pennaeth Cyllid i gytuno ar amodau a chwblhau cytundeb gyda Menter Iaith Gwynedd Cyf yn unol â'r adroddiad ac yn darparu'r indemniadau a nodwyd ym mharagraff 3.4.6 o'r adroddiad ar gyfer costau staff.

Darparwyd grant o £61,000 i Fenter Iaith Gwynedd ar gyfer gwireddu rhai elfennau o strategaeth iaith Cyngor Gwynedd a chyfrannu tuag at gostau staff 2025-2026.

Cytunwyd i ddarparu gwarant ar gyfer Cytundeb Mynediad i Gronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer Menter Iaith Gwynedd.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr adroddiad

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a daeth i ben am 2:45pm

**CADEIRYDD**